Cofnodion cyfarfod hybrid **y CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 15 Tachwedd 2023, am 6.00pm.

## PRESENNOL

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Y Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Mrs W. M. Mullen-James, Ms R. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 77. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Cynghorodd Clerc y Dref na dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Ar ran y Cyngor, llongyfarchodd y Maer y Cynghorydd Mrs D. L. King ar ei phenodiad yn Is-gadeirydd Cyngor Sir Ddinbych.

## 78. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau a ganlyn i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 18 Hydref 2023 - Cofnodion rhifau 64-76

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 18 Hydref 2023 - Cofnodion rhifau 19-21

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 1 Tachwedd 2023 - Cofnodion rhifau 22-25

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol - 1 Tachwedd 2023 - Cofnodion rhifau 42-50

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

## 79. ADRODDIAD Y MAER

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiadau y bu hi a'r Dirprwy Faer ynddynt yn ystod y mis diwethaf (copi wedi'i ddosbarthu gyda'r agenda).

Cyfeiriodd y Maer at Noson Wobrwyo Ffilmiau Ieuenctid Rhyngwladol Wicked Wales a'r Seremoni Gloi, a fwynhaodd yn fawr, a Chinio Blynyddol Criw Gorsaf Bad Achub y Rhyl hefyd.

Soniodd y Dirprwy Faer am noson Wicked Wales hefyd, a ddisgrifiodd fel noson wych, ac hefyd Gyfarfod Blynyddol Deial i Deithio a gwasanaethau Sul y Cofio.

Gwnaeth y Maer a'r Dirprwy Faer ddatgan eu bod wedi derbyn rhoddion llechi Cymreig a rhoddion wedi'u gwneud â llaw yn y noson Wicked Wales, a fydd yn cael eu harddangos ym Mharlwr y Maer.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad*.

## 80. AWDURDODII TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif taleb | Cyflenwr | Manylion y nwyddau/gwasanaethau | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1726 | CCLL Helping Hand for Ukraine | 2 docyn i Gyngerdd Codi Arian ar 2 Rhagfyr 2023 | 10.00 |
| 1727 | Canda Copying Ltd | Rhentu'r llungopïwr | 259.32 |
| 1728 | Canda Copying Ltd | Ffioedd y llungopïwr | 231.24 |
| 1729 | Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru | Ffi aelodaeth flynyddol | 100.00 |
| 1730 | Pottles Premier Plants Ltd | Planhigion y gaeaf | 1,264.75 |
| 1731 | Twristiaeth Gogledd Cymru | Cyfraniad tuag at gynnal Canolfan Groeso'r Rhyl yn ystod y gaeaf | 7,651.00 |
| 1732 | HSBC | Ychwanegiad i'r cyfrif arian mân | 150.00 |
| 1733 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu | 259.32 |
| 1734 | Cyng. J. McAlpine | Treuliau'r Maer mis Hydref a mis Tachwedd 2023 | 81.18 |
| 1735 | Cyng. R. Roberts | Lwfans Costau a Threuliau 23/24 (pro-rata) | 152.00 |
| 1736 | BJS Solutions | Meddalwedd gwrth-firws | 359.88 |
| 1737 | Cyfrif Elusen Cyngor Tref Rhuddlan | 2 docyn i Gyngerdd Elusennol ar 9 Rhagfyr 2023 | 20.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£10,538.69** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen taliadau a llofnodi'r taliadau gan ddau gynghorydd.*

## 81. CYNRYCHIOLWYR AR SEFYDLIADAU ALLANOL – BWRDD CAMERÂU CYLCH CYFYNG SIR DDINBYCH

Cynghorodd Clerc y Dref fod cynrychiolydd y Cyngor Tref, y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine, a'r cynrychiolydd wrth gefn, y Cynghorydd A. R. James, wedi gofyn am gyfnewid eu penodiadau.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd A. R. James yn gynrychiolydd a'r Cynghorydd Ms J. L. McAlpine yn gynrychiolydd wrth gefn.*

## 82. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

## 83. CYNGOR TREF RHUDDLAN – CYFARFOD I DRAFOD DARPARIAETH MYNWENT

Ymhellach i gofnod rhif 48 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd 2023, cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn dilyn y cyfarfod y bu ef a'r Maer ynddo ar 26 Hydref ynghyd â chynrychiolwyr o Gyngor Dinas Llanelwy a Chynghorau Tref Prestatyn a Dyserth, gyda phawb wedi mynegi pryder am ddyfodol darpariaeth mynwent/claddu yng ngogledd y sir.

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau awdurdodi ei fod yn parhau i fynd i'r cyfarfodydd i drafod y sefyllfa yn fanylach ac ystyried y mater gyda'r cynghorau cyfagos.

***PENDERFYNWYD*** *awdurdodi'r Maer a Chlerc y Dref i barhau i fynd i'r holl gyfarfodydd yn y dyfodol.*

## 84. SEFYDLIAD: GWEITHREDU CYTUNDEB CYFLOG Y CYD-BWYLLGOR CENEDLAETHOL 2023/-24

Adroddodd y Maer y daethpwyd i gytundeb ynghylch dyfarniad cyflog Llywodraeth Leol a gofynnodd am awdurdod gan yr aelodau i'w weithredu o 1 Ebrill 2023 ymlaen ac i awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol i roi cyfarwyddiadau i ddarparydd gwasanaethau cyflogres y Cyngor yn unol â hynny.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r dyfarniad cyflog ac awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol i roi cyfarwyddiadau i ddarparydd gwasanaethau cyflogres y Cyngor i gynyddu cyflog staff y Cyngor Tref yn eu taliadau cyflog ym mis Rhagfyr.*

**85. EITEM GWYBODAETH YCHWANEGOL: ETHOLIAD WARD CEFNDY**

Cynghordd Clerc y Dref fod dau ymgeisydd wedi'u henwebu'n llwyddiannus ar gyfer y sedd wag, sef Mr James May (Llafur Cymru) a Ms Sonia Fleming (Annibynnol) ac y cynhelir etholiad ddydd Iau, 7 Rhagfyr 2023.

**86. EITEM YCHWANEGOL: CYSTADLEUAETH ADDURNO FFENESTRI AT Y NADOLIG**

Cynghorodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James fod y ffurflenni cystadlu ar gael yn awr ac yn barod i gynghorwyr eu dosbarthu i fusnesau lleol cyn 8 Rhagfyr, sef y dyddiad cau i gystadleuwyr.

**87. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: …..……………………..